## Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru
## Cofnodion yr Is-Bwyllgor DTRh
## 3 Awst 2005

| **Yn bresennol:-** | **Camau gweithredu** |
| --- | --- |
| M Hooker, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<br>S Bool, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<br>A Wilkes, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru<br>R Favager, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru<br>R Amundson, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili<br>S Martin, Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>C A Williams, Cyngor Sir Benfro/Awdurdod y Parc Cenedlaethol<br>M Lucas, Cyngor Bro Morgannwg<br>K Maddock-Jones, Cyngor Cefn Gwlad Cymru<br>M Frampton, QPA<br>T Gilman, BAA | |
| **1. Ymddiheuriadau** | |
| A Bull, Cyngor Sir Powys<br>N Morgan, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot | |
| **2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf – 4 Gorffennaf 2005** | |
| Diwygiwyd y rhestr bresenoldeb i gynnwys Karen Maddock-Jones. | |
| Eitem 5 – Trafodwyd natur/cynnwys rhestrau 1 / 2. Cytunwyd y dylai SB drafod gydag awdurdodau cynllunio mwynau pa mor bell maent wedi symud ymlaen gyda'r rhestr MTAN 1. Bydd hyn yn cynnwys pob safle nid QPA yn unig. SM i ysgrifennu at ACM i'w hatgoffa o ofynion MTAN 1. | **SB**<br>**SM** |
| Cytunwyd i SM gylchredeg crynodeb gweithredol o adroddiad Smiths Gore ar wastraff adeiladu, dymchwel a chwareli. | **SM** |
| Cadarnhaodd SM y byddai unrhyw arolygon gwastraff adeiladu a dymchwel yn cael eu hariannu o gyllideb graidd LICC (arolygon bob 2 flynedd). | |
| Tud 3 (ail baragraff) – nid oedd SB yn gallu cadarnhau a oedd agregau cynradd/eilaidd cymysg wedi eu heithrio o'r Dreth Agregau. | **SB/Pawb** |
| Eitem 27 – mae'r cyfeiriad at y GPDO yn cwmpasu peiriannau sefydlog yn unig dan Ddosbarth B o Ran 19. | |
| Eitem 42 – cadarnhawyd mai MH nid SM a gyfeiriodd at Dr Ian Mathews o ran gwybodaeth am asesiadau effaith ar iechyd. | |

| | |
|---|---|
| Cwestiynodd MF absenoldeb fframwaith/methodoleg ar gyfer y broses DTRh. Cytunwyd i ychwanegu cyflwyniad/rhagair yn canolbwyntio ar (i) gyfansoddiad cyflenwad agregau a (ii) argaeledd ac addasrwydd agregau cynradd i fodloni'r galw a (iii) esboniad o'r broses. | |
| Cytunwyd i anfon rhagair ddrafft ar gyfer y papur materion at aelodau'r Is-Bwyllgor DTRh. | **SB** |
| **5. <u>Ymgynghoriad Cyhoeddus – Rhaglen Ddrafft</u>** | |
| Cytunwyd y dylai'r papur materion ddisgrifio'r gwahaniaeth rhwng IMAECA / EMAADS a darparu cyswllt i'r wefan (crynodeb gweithredol). Dylid cyfeirio hefyd at ffigur agregau MTAN a pham fod yna gymaint o alw. Cydnabuwyd bod angen archwilio'r ffigur o 5 tunnell y pen y cyfeiriwyd ato yn adroddiad Arup cyn ei gynnwys yn yr adroddiad. | **SB** |
| Awgrymwyd y dylai lefel yr ymarfer ymgynghori fod yr un peth â'r lefel ar gyfer MTAN 1. | |
| SEA – bydd SB yn cael amcangyfrifon i ymgynghorwyr wneud hyn. Bydd y rheoliadau'n cael eu gwirio i benderfynu ar y camau/proses i'w cymryd. | **SB** |
| Cwestiynwyd y cyfnod o bythefnos ar gyfer dadansoddi'r ymateb i'r ymarfer ymgynghori. Tybiwyd y byddai hyn yn lleiafswm o 4 wythnos. | |
| Cytunwyd y dylai cynulleidfa'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus fod yn awdurdodau unedol ac <u>nid</u> cynghorau cymunedol. | |
| Trafodwyd y buddion o sefydlu gwefan ar gyfer y Gweithgor a chytunodd SB i archwilio'r gost/ddarpariaeth. | **SB** |
| Cadarnhaodd MH y dylid cysylltu â RJ er mwyn drafftio'r rhagair yn Gymraeg ac yn Saesneg. | **MH** |
| Cwestiynwyd yr angen am fforymau ac, o ystyried adnoddau staff prin, cytunwyd i ohirio'r ystyriaeth hon er mwyn aros am yr atebion a fydd yn dod fel rhan o'r ymgynghoriad. | |
| Awgrymodd MH y dylai unrhyw ddogfen ymateb/sylwadau fod yn gyfle i roi barn yn rhydd yn hytrach na chynnwys cwestiynau. | |
| Nodwyd bod angen rhifau i baragraffau'r papur materion. | **SB** |
| Cynigiodd TG yn hael iawn i ariannu cost cyfalaf gwefan y Gweithgor. SB / MH i drafod ymhellach. | **SB / MH** |

| | |
|---|---|
| **6. <u>Protocol IMAECA</u>**<br><br>Cytunwyd i orfodi lwfans cyffredinol o 1 fel rhan o'r protocol. Adroddir ar hyn yng nghyfarfod nesaf y Gweithgor. Nodwyd yr anhawster o ddod i gonsensws ar y mater ond roedd raid i LICC fod yn ymarferol.<br><br>Cytunwyd y byddai SB yn cylchredeg y protocol gyda'r cofnodion unwaith i SM ei ddiwygio.<br><br>Gwahoddodd SM bawb a oedd yn bresennol a oedd â diddordeb mewn gweld y teclyn IMAECA, yn enwedig y gwahaniaethau a gynhyrchir gan y lwfansau gwahanol, i swyddfeydd LICC. Dyddiad i'w drefnu.<br><br>**7. <u>UFA</u>**<br><br>(i) SDPW – Polisi Cynllunio ar gyfer Mwynau.<br><br>Ymgynghori ar yr atodiadau gan gynnwys darparu agregau.<br><br>Cadarnhaodd SM fod hwn wedi ei gyhoeddi'n ddiweddar a bod rhai o fentrau 'newydd' MTAN 1 wedi eu cyflwyno yn y ddogfen ymgynghori. Yn arbennig o sylweddol oedd y banc tir 10 mlynedd ar gyfer creigiau mâl.<br><br>**8. <u>Dyddiad y cyfarfod nesaf</u>**<br><br>I'w drefnu ar gyfer Hydref/Tachwedd 2005 yn y Ganolfan Dyfeisgarwch, Pen-y-bont ar Ogwr. | <br><br><br><br><br><br>**SB / SM**<br><br><br><br><br>**SM** |